**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2003**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**2.52pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.03pm**
**Pwynt o Drefn**
**Geraint Davies** ar Weinidogion yn hysbysu Aelodau'r Cynulliad am ymweliadau â'u hetholaethau.

**3.08pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu)(Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2002**

*NDM1287*- Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2002.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - William Graham**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn mynd ati i hyrwyddo'r cynllun Hawl i Brynu, ar gyfer tenantiaid sy'n gymwys, yn holl ardaloedd eraill Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 44
Gwrthodwyd y gwelliant i **egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1288* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Tai (Hawl i

Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2002.

2. Yn gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2002 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau trwy'r e-bost ar 7 Ionawr 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.22pm**
**Dadl ar Ymestyn Hawliau**
*NDM1286* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar agenda Ymestyn Hawliau (cynorthwyo pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed).
*Gellir dod o hyd i Ymestyn Hawliau ar y Fewnrwyd trwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol.* http://assembly/education/support%20for%20young%20people/support%20for%20young%20people%20index.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu "Yn croesawu" a rhoi "Yn nodi" yn ei le

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar y diwedd ", ond yn cydnabod bod morâl isel ymysg athrawon a llywodraeth sy'n dangos diffyg dychymyg yn llesteirio'r cynnydd hwnnw."

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 8; Ymatal 1; Yn erbyn 42; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 43; Ymatal 0;Yn erbyn 8; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.10pm**
**Dadl wedi’i henwebu gan Blaid Cymru**

*NDM1285* - Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r farn bod y Llywodraeth Glymblaid wedi siomi pobl Cymru.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar y diwedd ", ac mae'n galw am ddiddymu'r glymblaid."

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 44; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**Y cynnig**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y cynnig**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.23pm

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 15 Ionawr 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a osodwyd ar 07 Ionawr 2003**

- Rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru - LD1788

- ☐ Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003 - LD1789

**Dogfennau a osodwyd ar 06 Ionawr 2003**

- ☐ National Assembly for Wales Resource Accounts 2001-2002 - LD1783 Dim copi Cymraeg ar gael

**Dogfennau a osodwyd ar 23 Rhagfyr 2002**

- ☐ Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD1784
- ☐ Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD 1785
- ☐ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) a (Ffioedd Deintyddol) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD 1786
- ☐ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD 1787

**Dogfennau a osodwyd ar 20 Rhagfyr 2002**

- ☐ The Cabinet of the National Assembly for Wales’s response to the recommendations of the Audit Committee, following the presentation of their report in December 2002 - LD1782 Dim copi Cymraeg ar gael

**Dogfennau a osodwyd ar 19 Rhagfyr 2002**

- ☐ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CADW - Welsh Historic Monuments 2001-02 - LD1781 *Dim fersiwn electronig ar gael*

## Adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 18 RHAGFYR 2002**

- ☐ LC587 - Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003 - LD1780